Gorffennaf 2022

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol hynod brysur arall ysgrifennaf atoch i rannu peth gwybodaeth am y flwyddyn i ddod ac i ddiolch yn ddiffuant iawn i chi am eich cefnogaeth arbennig bob amser.

**DYDDIADAU PWYSIG**
Byddwn yn cau ar gyfer dechrau gwyliau'r haf Ddydd Mawrth, **Gorffennaf 19**eg.
Bydd yr ysgol yn ail agor ar gyfer disgyblion **Ddydd Llun, Medi'r 5ed**. Bydd calendr manwl o ddyddiadau allweddol ar gyfer y flwyddyn 2022-23 yn cael ei rannu ym mis Medi.

**GWISG YSGOL**
Ar ddechrau blwyddyn newydd ym mis Medi rydym yn angen sicrhau fod **pob** disgybl yn cadw at reolau yr ysgol o ran gwisg ac edrychiad. Hoffwn eich atgoffa na chaniateir y canlynol:- Leggings, jeans a chotiau denim, esgidiau nad sy'n unlliw du, hwdis, gwaelod tracwisg, tlysau (piercings) o unrhyw fath ac eithrio un pâr o 'studs' yng ngwaelod y glust, sgertiau byr, gwallt lliw annaturiol.

Gofynnwn yn garedig i chi am eich cydweithrediad wrth sicrhau bod eich plentyn yn y wisg gywir ym mis Medi.

**Gwisg Ysgol (Blwyddyn 10)**

Wrth i Flwyddyn 10 gychwyn cyfnod newydd yn eu haddysg gan baratoi ar gyfer eu haroliadau TGAU byddant yn symud i wisg ysgol newydd sef crys coler wen gyda thei clip yr ysgol a siwmper gwddf V lwyd gyda logo'r ysgol arni. Disgwylir iddynt wisgo trowsus neu sgert ddu ac esgidiau du.
I'r rhai sydd angen gwisg addysg gorfforol newydd mae yna fersiwn newydd o'r wisg ar gael bellach.

**Darparwyr Gwisg Ysgol Ysgol David Hughes:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Brodwaith | Llangefni | 01248 750333 | www.brodwaith.co.uk |
| Orchid School Shop | Bangor | 01248 354777 | www.orchid-schoolshop.cymru |
| All Sewn Up | Bangor | 07402 919563 | www.allsewnupbangor.com |

**NOSWEITHIAU RHIENI**
Dros y blynyddoedd diwethaf buom yn cynnal nosweithiau rhieni drwy 'Schoolcloud' ar-lein yn hytrach nag yn wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Yn sicr mae manteision ac anfanteision i'r drefn yma. Hoffem glywed eich barn am sut i gynnal nosweithiau rhieni i'r dyfodol. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau holiadur byr iawn drwy'r linc isod.

**https://forms.gle/ZzwE34ZYTPRbAdtB9**

**'CLASS CHARTS'**
O fis Medi ymlaen fe fyddwn yn defnyddio'r pecyn 'Class Charts' ar gyfer cyfathrebu hefo chi ynghylch presenoldeb, gwaith cartref, dathlu llwyddiant, ymddygiad a nifer o bethau eraill. Bydd hyn yn digwydd drwy App pwrpasol lle mae yna 3 fersiwn gwahanol ar gyfer rhieni, dysgwyr ac athrawon neu drwy fewngofnodi i wefan.
Gallwch lawrlwytho'r App perthasol o'r App Store neu Google Play. Mae posib dewis Defnyddio'r app drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg
Byddwn yn dosbarthu canllawiau pellach a manylion logio mewn ar ddechrau'r tymor.

**Clwb Gwaith Cartref**
Bydd Clwb Gwaith Cartref yn cael ei gynnal yn Yr Harbwr hyd at 5:00pm pob prynhawn ag eithrio Dydd Gwener o fis Medi ymlaen. Bydd staff ar gael i roi cymorth ac arweiniad ac fe fydd cyfrifiaduron ac adnoddau eraill ar gael. Bydd disgwyl i rieni drefnu cludiant adref.

Dymunwn y gorau i chi dros wyliau'r haf ac edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl ar 5ed o Fedi.

Yn gywir,

H. Emyr Williams

**H.Emyr Williams (Pennaeth)**